# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Matthew Newland Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


Ffôn: **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9589-0



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 11

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 16

4. Beth nesaf? ........ 18

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 19

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 20

   Atodiad B – Cynllun gwella brys ........ 21

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 22

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Sicrhau bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn gosod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu mewn modd effeithlon, effeithiol a chymesur.

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal a ddarperir.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog a chefnogi gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Matthew Newland yn 73 Heol Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 9DP, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 20 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o’n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Matthew Newland yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac yn lân.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a’u sterileiddio’n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Ni wnaed unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Matthew Newland yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Llantrisant a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, pedair nyrs ddeintyddol (mae dwy o'r rhain yn rhoi cymorth yn y dderbynfa), un derbynnydd, ac un rheolwr practis rhan amser.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r gofal a ddarperir gan y practis hwn yn rhagorol"*
>
> "Mae'r practis yn effeithlon iawn. Cwsmer eithaf hapus"
>
> "Gwasanaeth ardderchog. Hapus iawn"

### Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd digon o wybodaeth hybu iechyd deintyddol ar gael yn y mannau aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros. Roedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac o opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion.

### Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wedi nodi eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom staff yn

siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth cleifion

Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau. Roedd bron i bob un o'r cleifion a ddychwelodd holiadur yn datgan eu bod nhw'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth brys y tu allan i oriau. Gwelsom fod manylion y rhif ffôn cyswllt brys, manylion y deintyddion sy’n ymarfer, ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn y driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd bron i draean o’r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn siarad Cymraeg. Nododd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur eu bod bob amser wedi gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Gwnaethom drafod â staff y dylai dogfennau allweddol megis y weithdrefn gwyno gael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ieithoedd eraill, yn seiliedig ar anghenion poblogaeth eu practis.

## Gofal amserol

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Nododd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall y triniaethau a oedd ar gael ac wedi eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch y triniaethau i'w dewis. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Roedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac o opsiynau yn cael eu trafod â chleifion. Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

## Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae un ystafell driniaeth ar y llawr daear, sy'n hygyrch ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd manylion ynghylch y gweithdrefnau cwynion ar gael ar wal yr ystafell aros. Nododd bron pob claf a oedd wedi cwblhau holiadur eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis. Gwnaeth y rheolwr practis gadarnhau fod copïau o'r weithdrefn gwynion yn hygyrch, ar ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Roedd y gweithdrefnau cwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[1]

Roedd gan y practis ddull sefydlog ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod arolygon bodlonrwydd cleifion wedi'u dosbarthu er mwyn casglu adborth ac awgrymiadau gan gleifion. Gwnaeth y mwyafrif o gleifion gadarnhau eu bod wedi cael eu holi ynghylch eu barn ar y practis drwy'r holiadur i gleifion. Ystyriwyd y camau i'w cymryd a'r hyn a ddysgwyd oddi wrth adborth cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a gafwyd a hynny yn y man aros er mwyn dangos i gleifion eu bod yn gweithredu ar adborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflenwi yn y practis.

---

1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Fodd bynnag, roedd angen gwiriadau diogelu cyfredol ar gyfer rhai staff.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Teimlodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod y practis yn lân iawn yn eu barn nhw. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n

ddiogel yn y practis. Roedd tystiolaeth o dystysgrif gwifrau trydanol ar gyfer yr adeilad hefyd ar gael.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Gwnaethom drafod y dull diogel o storio sylweddau COSHH ac roeddem yn fodlon ar y diwrnod bod hwn yn briodol. Roedd ffeil COSHH ac asesiadau risg ar waith, ond nid oedd yn glir pryd y cafodd y rhain eu hadolygu. Gwnaeth rheolwr y practis gytuno i ymgymryd ag adolygiad er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau yn gyfredol. Rhoddwyd cyngor ar wneud y mynediad at yr ystafell staff i fyny'r grisiau yn fwy diogel a rhoddwyd camau ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad ynghylch hyn.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

### Atal a rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol.
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom fod staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisïau. Gwelsom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,[2] ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwymp). Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi swyddog cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys yn cael ei gynnal.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, a bod hyfforddiant diogelu’n cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

---

2 http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Gwnaethom nodi bod yr ystafell driniaeth wedi'i llunio a'i threfnu i helpu'r tîm i weithio yn effeithlon ac roedd i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau a radioleg.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom nodi bod archwiliadau CAPRO yn cael eu cynnal trwy Ddeoniaeth Cymru.[4]

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch a sicrwydd data personol. Roedd yr holl ffeiliau electronig yn cael eu cadw yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel a chynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

---

3 Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

4 https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol y ddau ddeintydd a gwnaethom siarad â'r ddau ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da iawn. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Mae gan Bractis Deintyddol Matthew Newland dîm practis wedi'i hen sefydlu gyda throsiant isel o staff. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd, gyda chymorth oddi wrth reolwr practis effeithlon oedd yn gweithio'n rhan amser. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd, gyda chymorth oddi wrth reolwr practis effeithlon oedd yn gweithio'n rhan amser. Roedd archwiliadau CAPRO yn cael eu cynnal trwy Ddeoniaeth Cymru. Roedd polisi sicrhau ansawdd ar waith.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Nid oedd gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pedair nyrs ddeintyddol. Bu trafodaeth gyda rheolwr y practis a'r prif ddeintydd ynghylch lefel y sicrwydd oedd ar waith ar gyfer y staff hynny a chytunwyd y byddai cynnal gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol ag arfer gorau.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o ddogfennau sefydlu staff ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda.  Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom hefyd fod staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau blynyddol staff. Gwelsom fod cofnodion priodol yn cael eu cadw ynghylch statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau a oedd ar waith a chanfod eu bod yn drwyadl, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arferion gwirioneddol, eu bod wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd, a'u bod yn cynnwys dyddiadau adolygu.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad ac mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad

- Atodiad B: Mae'n cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd

- Atodiad C: Mae'n cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu AGIC a'r cyhoedd â sicrwydd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIGar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella brys

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Matthew Newland

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Practis Deintyddol Matthew Newland**

**Dyddiad yr arolygiad:** **20 Ebrill 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni welwyd unrhyw broblemau yn y maes hwn yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Ni welwyd unrhyw broblemau yn y maes hwn yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw broblemau yn y maes hwn yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad: